Scouts
Cymru



# Mae Scouts Cymru ar agor i bawb

## Y prif bennawd ar gyfer 2026 yn gywir ym mis Ionawr 2026

Trwy antur, cyfeillgarwch a phrofiadau newydd, mae pobl ifanc yn magu hyder, yn datblygu sgiliau ar gyfer bywyd ac yn darganfod bod eu llais yn bwysig.

Rydym ni eisiau i fwy o bobl ifanc gael mynediad at y cyfleoedd hyn, teimlo ymdeimlad cryfach o berthyn yn eu cymunedau a chwarae rhan weithredol wrth lunio'r dyfodol o'u cwmpas.

Mae gan ScoutsCymru bron i

**18000 o aelodau**

gan gynnwys pobl ifanc a gwirfoddolwyr sy'n oedolion

**Rydym ni'n falch o fod yn fudiad croesawgar a chynhwysol**

Mae bron i 14,000 o bobl ifanc yn rhan o ScoutsCymru ac

**mae traean o'n haelodau'n ferched**



**Mae ScoutsCymru yn creu mannau lle mae pobl ifanc ledled Cymru yn teimlo eu bod yn gartrefol, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain**

Mae aelodau'r Network 18+ wedi cynyddu

**67%**

GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU
WELSH CHARITY AWARDS

**Organisation of the Year 2025**

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n mudiad hefyd –

**mae dros 28% o'n haelodau'n siarad Cymraeg**

Dyfyniadau gan bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymchwil Lleisiau Ieuenctid annibynnol, a gynhaliwyd ar gyfer ScoutsCymru gan Out of the Woods.

**"Rydych chi'n diffodd technoleg ac yn mynd allan i'r awyr agored ac yn crwydro'r gwyllt."**

**"Mae'n gwneud i mi deimlo nad yw rhywedd yn bwysig, felly gallwn ni ymuno yn yr hyn rydyn ni eisiau."**

**"Mae'n dysgu llawer o sgiliau bywyd i mi, ac rydyn ni fel teulu lle gall pawb fod yn nhw eu hunain."**

Ym mhrosiect ymchwil Lleisiau Ieuenctid, roedd pobl ifanc yn siarad yn angerddol am gyfeillgarwch, perthyn, antur a theimlo eu bod yn cael eu derbyn am bwy ydyn nhw. Dangosodd eu hymatebion nad rhaglen weithgareddau yn unig yw Scouts yng Nghymru. I lawer, mae'n rhywle lle maen nhw'n meithrin hyder, yn datblygu sgiliau gydol oes, yn ffurfio cyfeillgarwch parhaol ac yn teimlo eu bod nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain go iawn.

**Tyfodd Squirrels 35%** rhwng 2024 a 2026



**Mae dros 4400 o bobl ifanc ar ein rhestr aros**

Mae angen mwy o wirfoddolwyr arnom er mwyn gostwng y rhif hwn

Mae Sgowtio yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan bron i **4,300 o wirfoddolwyr ac mae 50% yn fenywod**



# Mudiad sy’n gwneud gwahaniaeth

O Squirrels i Scouts a thu hwnt – rydym ni’n cefnogi pobl ifanc 4-25 oed mewn 6 adran sy'n briodol i'w hoedran.

| | |
|---|---|
| Squirrels (4–6oed) **75 Nythfa** | Beavers (6–8oed) **237 Cytref** |
| Cubs (8–10½oed) **254 Haid** | Scouts (10½–14oed) **237 Llu** |
| Explorers (14–18oed) **97 Uned** | Network (18–25oed) **26 grŵp** |

Mae ScoutsCymru yn cyflwyno rhaglenni yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae ganddo ei gyfres ei hun o fathodynnau sy'n canolbwyntio ar faterion lleol a byd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Wobr Cennin Pedr newydd, a gyflwynir mewn partneriaeth â Cadw o 2026 ymlaen. Mae'r bathodyn yn ymwneud â helpu pobl ifanc i gysylltu ag iaith, traddodiadau, straeon ac ysbryd Cymru mewn ffyrdd hwyliog ac ymarferol.

Rydym ni’n meddwl yn fyd-eang ac yn gweithredu'n lleol – gan gefnogi cannoedd o bobl ifanc i deithio gyda ni, ar alldeithiau, teithiau cyfnewid diwylliannol a digwyddiadau Sgowtio mawr, yn ogystal â theithiau lleol ledled Cymru.

Dangosodd dadansoddiad annibynnol o ymatebion Lleisiau Ieuenctid mai cyfeillgarwch, perthyn a dysgu sgiliau newydd oedd y themâu cryfaf a oedd yn codi dro ar ôl tro, sy’n dangos bod pobl ifanc yn gweld Sgowtio yng Nghymru fel llawer mwy na rhaglen weithgareddau.




